


Nodiadau gan y Bardd

gan Marvin Thompson



Helo, fy enw i yw Marvin. Cefais fy ngeni yn Tottenham, yng ngogledd Llundain yn fab i rieni o Jamaica. Bellach, rwy'n byw yng nghanol y mynyddoedd yn ne Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd darllen y nodiadau isod yn eich helpu i fwynhau fy ngherdd, 'Yr un lle dwi'n gyrru trwy Grymlyn yn meddwl am weddillion tân-sigarét y ffatri greision.'

Trosolwg o'r gerdd

Yr ail ran mewn dilyniant o bedair cerdd yw 'Yr un lle dwi'n gyrru trwy Grymlyn...' Mae'r dilyniant yn darlunio tad du yn mynd â'i blant sydd o dras cymysg i wyllo ffilm *Lego Batman* yng Nghoed Duon, de Cymru.

Yn ystod y daith, mae'r tad yn ystyried yr heriau sy'n ei wynebu o fod yn rhiant i blant o hil cymysg yn ne Cymru, lle mae'r nifer helaeth o'r boblogaeth yn wyn.

Yn y dilyniant yma, fersiwn ffuglennol ohonof i yw'r storïwr, a fersiynau ffuglennol o'm plant fy hun yw Derys a Hayden. Roedd canolbwyntio ar y cymeriadau go iawn yma yn gwneud y broses o ysgrifennu yn un emosiynol iawn. Gobeithio fod hyn yn dod drosodd yn y gerdd.

Cyfieithiad neu Jazz?

Pan wrandewais ar y cyfieithiad Cymraeg o fy ngherdd gan fy ffrind, Grug Muse, cefais sioc. Roedd yn swnio hyd yn oed yn fwy emosiynol na'm fersiwn gwreiddiol i.

Gwnaeth hyn f'atgoffa o ddau beth:

- Mewn barddoniaeth, mae sain (neu gerddoriaeth) yr iaith yn hanfodol. Mae hyn oherwydd fod cerddoriaeth geiriau yn dwysau ystyr ac effaith y gerdd.
- Wrth ddarllen cerddi, yn aml rwy'n anghofio delweddu. Mae troi'r geiriau yn lluniau yn fy meddwl yn fy help i ymgysylltu â'r iaith. Hefyd, mae'n gwneud darllen y gerdd hyd yn oed yn fwy pleserus.

Nodiadau gan y Bardd

gan Marvin Thompson

Darllenwch ar eich pen eich hun, ac yna trafodwch gyda ffrind!

Er mwyn mwynhau cerdd, rwy'n hoff o'i darllen sawl gwaith. Wrth ei ddarllen am y tro cyntaf, rwy'n ceisio gwrandao ar gerddoriaeth yr iaith. Yna byddaf yn ei darllen eto gan ganolbwyntio y tro hwn ar y teitl, a byddaf yn GWENU. "Beth mae hynny'n ei olygu?" Wel...

Y Teitl

- Mae 'Yr un lle dwi'n gyrru...' yn cyfeirio at y gomedi deledu o'r 1990au, *Friends*. Wedi'i seilio yn Efrog Newydd, roedd *Friends* yn enwog dros y byd! Fodd bynnag, roedd hefyd yn enwog am y diffyg amrywiaeth ymysg y prif gast ac ymysg y cymeriadau mewn golygfeydd torfol. Ymddengys nad oedd y diffyg amrywiaeth yma yn cyfleu'r gwirionedd yn Efrog Newydd.
- Sut all y thema amrywiaeth fod yn berthnasol i stori tad du yn mynd â'i blant o dras cymysg i wyllo ffilm *Lego Batman* yng Nghoed Duon?

Strwythur

- Pa elfennau o'r gerdd sydd yn gwneud iddi deimlo fel stori?
- Ydy'r elfennau hynny'n gwneud y gerdd yn fwy neu'n llai atyniadol?

Ystyr

- Amlygodd trychineb Grenfell y driniaeth negyddol sy'n aml yn cael ei brofi gan grwpiau lleiafrifol a phobl dlawd ym Mhrydain. Sut mae hyn yn berthnasol i deitl y gerdd?

Delweddau

- Mae'r gerdd yn cynnwys llawer o ddelweddau diwydiannol ('teledu', 'pyllau glo', 'Grenfell'). Fodd bynnag, prin yw'r delweddau o'r byd naturiol (e.e. 'helyg'). Beth ydych chi'n meddwl ydy'r rheswm dros hyn?

Iaith

- Mae llawer o iaith y gerdd yn gysylltiedig â marwolaeth. Fel darllenydd, sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?

Effaith ar y darllenydd

- Beth yw effaith cael plant ifanc fel cymeriadau allweddol yn y gerdd?

Ysgrifennwyd gyda chymorth gan: (Athro Saesneg), Peepal Tree Press,
y Forward Arts Foundation a Llenyddiaeth Cymru. Llun gan: Christopher Ball.